

Cyngor Cymuned **LLANBRYNMAIR** Community Council
Clerc: Sarah Reast, E-bost: clercllanbrynmair@gmail.com Tel. 07743 689912

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 1af Gorffennaf 2026

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), I Edwards, F Cauley, G Davies, E Davies, E Lewis, D Jones, P Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - S Evans

Absennol – 0

Aelodau o'r cyhoedd - 1

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Dim

Datganiadau diddordeb – Dim

Sesiwn cyfrinachol – Gadawodd y Clerc, G Mitchell, y Cyfieithydd a'r aelod o'r cyhoedd yr ystafell

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 3ydd Mehefin

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Derbynwyd 'dispensers' yn y toiledau ond nid ydy'r gofalwr wedi eu osod eto. Mae gwaelod un o'r toiledau wedi ei chwalu ond nid oes dŵr yn gollwng. Cynigwyd ystyried toiledau 'stainless steel' ond mae E Lewis yn mynd i edrych am un arall ail law
2. Nawdd Windfall – Mae'r Cyngor a'r tirfeddianwr wedi cytuno ar drafft y prydles ac mae'r 'deeds' wedi eu rhannu rhwng y ddau cyfreithiwr. Y cam nesaf ac olaf fydd i'r ddau parti llofnodi copi terfynol o'r cytyndeb.
3. Y Cae Mawr – Derbynwyd y cytundeb i'r ffarmwr sydd yn pori defaid ar y cae gan R Ashton a B Jones i'w cwblhau ac i gydlynnu llofnodion.
4. Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 – Fydd rhaid i trafodaeth y mater yma cychwyn eto gyda'r Aelod Seneddol newydd pan fydd ganddo swyddfa a staff cynorthwyol
5. Hysbysfyrddau – Mae'r hysbysfwrdd newydd i Pennant wedi cyrraedd ac mae'r Clerc wedi gwneud paratodau i'w osod yn ei le
6. Croesfan ar yr A470 ym mhentref Llanbrynmair – Fydd rhaid i trafodaeth y mater yma cychwyn eto gyda'r Aelod Seneddol newydd pan fydd ganddo swyddfa a staff cynorthwyol
7. 'Charging point' ym maes parcio'r pentref – Mae G Mitchell wedi trefnu arolwg o'r posibiliadau technegol – Dim diweddariad
8. Diweddariad ar Diffibrilwyr – Mae gan pob un pads gweithredol. Mae I Edwards wedi hysbysebu cystadleuaeth Ffermwyr Ifanc i ceisio enill diffibrilwr i'r Wern. Disgwylir derbyn sesiwn hyfforddiant yn yr Hydref fel rhan o'r pecyn a chafwyd gan Hufenfa De Caernarfon oedd yn cynnwys y diffibrilwr newydd ar toiledau'r pentref

9. Arwydd llwybr cyhoeddus i Newydd Fynyddog – Mae'r Clerc wedi casglu'r arwydd er mwyn ei drwsio – Dim diweddariad
10. Blwch rhoddion i'r toiledau – B Jones i'w osod ar wal y toiledau. Cyтынwyd ar geriau'r arwydd i rhoi arno
11. Golwg pentref Llanbryn-mair – Cafwyd cyfarfod yn y pentref gyda cynrichiolydd BAM, R Ashton a B Jones ar 15fed Mehefin i drafod possibiliadau buddsoddiant yn y pentref. Disgwilir i BAM penderfynu ar ei blaenoriaethau a'u adnoddau cyn dod yn ôl i'r Cyngor gyda cynllyn i gwneud y gwaith yn ystod mis Awst
12. Arwydd ar gyfer Station House – Mae G Mitchell wedi gofyn am côd post penodol ar gyfer y tŷ
13. Prydles i'r stafell snwcer – Mae'r Clerc wedi gofyn eto am diweddariad gan Adran Assedau Powys ynglyn a trefnu prydles ffurfiol ar gyfer yr adeilad
14. Monitro ansawdd dŵr yr afonydd – Mae'r Clerc wedi gofyn i Dŵr Cymru am cyfarfod ar y safle trîn dŵr yn Nhafolwern ac wedi gofyn i NRW am canlyniadau profion dŵr hefyd. Mae trigolyn Bont yn parhau i profi dŵr wrth y 'Pump House' yn Bont yn gyson
15. Angen hongian y giât yn well rhwng y Cae Mawr a'r Cae Bach – B Jones a R Ashton i edrych arno fo. Gofynwyd am giat newydd a cyтынwyd i'w ariannu gan Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt
16. Cyfathrebu trwy Facebook a'r we-fan – Cafwyd gwybod gan ymwelwyr i Neuadd Fach yn Eglwys Llan eu fod yn gwerthfawrogi cael darllen yr adroddiadau blynyddol ar bapur
17. Llwybr o Ddolfach i Lanbryn-mair – Mae'r Clerc wedi gofyn i NMWTRA os gall y gwair ar ochrau'r ffordd cael ei dorri'n fyrach ac yn amlach i'w neud yn haws i gerddwyr
18. Datganiad o Dderbyn y Swydd o Gadeirydd – R Ashton wedi ei arwyddo
19. Trefn rheolaeth asedau rhwng Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt a'r Cyngor – Cyтынwyd fod angen y rhestr o asedau ac eglurhad byr yn unig
20. Costau cyfieithu – Mae nawdd Menter laith ar gyfer costau cyfieithu wedi dod i ben. Mae'r Clerc wedi gofyn os oes gobaith o estyniad neu unrhyw posibilid o gefnogaeth arall ar gael. Fydd rhaid cael y trafodaeth yma gyda'r Aelod Seneddol newydd pan fydd ganddo swyddfa a staff cynorthwyol
21. Adroddiad gan Llywodraethwyr yr Ysgol – Mae yna 30 o blant yn yr ysgol yn mis Medi sydd yn golygu mae Llanbryn-mair ydy'r ysgol lleia ym Mhowys.
22. Adroddiad i'r Blewyn Glas – Mae'r Clerc yn aros am diweddariad am Llwybr Tafolwern a cynllyn BAM er mwyn creu erthygl swmpus i'r wasg
23. Prydles i'r toiledau – Cyflwynwyd cynllyn o'r safle a cyтынwyd ar rhai newidiadau. Arolygwyd y termau a cyтынwyd ar rhai pethau i rhoi sylw iddynt megis cyfnod y cytundeb a'r angen am profion trydan a Legionnaires
24. Sietyn a gor tyfiant wrth yr ysgol a Glan y Nant – Clerc i wneud ymholiadau am tocio
25. Chwyn ar pont Llanbryn-mair – Clerc i adrodd NMWTRA bod angen chwythu'r chwyn i ffwrdd wedi eu dorri gan eu fod yn clymu olwynion 'mobility scooters'
26. Hysbysiad Archwiliad – Mae hysbysiad yn gwahodd trigolion i astudio cyfrifion a rheolaeth y Cyngor fel rhan o broses Archwiliad Awdit Cymru wedi ei osod ym mhob hysbysfwrdd, ar y we-fan ac ar FB
27. Diolch i trigolyn ffordd Pandy am torri gwair o gwmpas bainc ar waelod ffordd Bryneira
28. Diolch i G Davies am flynyddau o fod yn Gadeirydd i Pwyllgor Gwaith y Ganolfan a croeso i I Edwards sydd yn cymryd ei le
29. Ymchwilio'r posibilid o derbyniad radio gwell yn Llanbryn-mair - Fydd rhaid i trafodaeth y mater yma gyda'r Aelod Seneddol newydd pan fydd ganddo swyddfa a staff cynorthwyol
30. Llwybr y cae chwarae yn anesmwyth – Bydd angen edrych ar y llwybr yn fanwl i ystyried sut i'w ddatrus
31. Ffordd wedi disgyn wrth Minffordd – Clerc i adrodd i Powys

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Arwydd 'Dead end' i ffordd Cefn, Pennant	Ie	30/06/26 - 5339-8387-2686-6458

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Coed rhwng Station Garage a Pont Brics angen eu thorri	Ie	Network Rail wedi tocio'r coed ar ei tir nhw sydd yn agos i'r pont. Clerc wedi gwneud ymholiadau am y darn o sietyn nesaf wrth ymyl Llysun

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Bioamrywiaeth

- Ffilm 'National Emergency Briefing' – F Cauley wedi trefnu i'w weld ar y 9fed Gorffennaf yn y Neuadd Fach, Eglwys Llan ac wedi rhannu gwahoddion efo'r Cynghorwyr i gyd
- Plannu yn y pentref – Cytynwyd i edrych allan am cymorth ariannol i blannu pethau ar hyd y ffens rhwng y cae chwarae a'r afon i creu lliw, diddordeb a cynefin i bioamrywiaeth. Efallai fydd hyn yn rhywbeth fydd BAM yn gallu cyfrannu ato
- Gwneud rhestr o rhywiogaethau yn yr ardal

Gohebiaeth

- Cofnodion Grŵp Cyswllt Esgair Galed 20fed Mai
- Ymgynghoriad Cynllyn Gwasanaethau Clinigol – Mynychwyd gan G Mitchell a F Cauley.
- Cronfa Diogelwch Ffyrdd, Comisynydd Heddlu a Throsedd – Clerc i edrych i mewn i gwneud cais am arwyddion cyflymder sy'n fflachio
- Pont rheilffordd Pontdolgoch – Llythyr gan Cyngor Cymuned Carno yn gofyn i Network Rail am gynllyn o welliannau i'r dyfodol
- Gwahoddiad i Royal Welsh – Clerc i drefnu tocyn i F Cauley

Cynllunio - Dim

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 26/06/26

Cyfrif Cyfredol	£12,453.19
Cyfrif Cadw	£3,030.29
Cyfanswm	£15,483.48
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£15,483.48

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
01/07/26	Cyflog y Clerc – Mehefin	£547.60	Cytynwyd
01/07/26	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu - Mehefin	£130.00	Cytynwyd
01/07/26	Andrew Mears – Glanhau toiledau	£360.00	Cytynwyd
01/07/26	Andrew Mears – Gwagu biniau 12/05/26	£15.00	Cytynwyd
01/07/26	Andrew Mears – Gwagu biniau – 30/06/26	£15.00	Cytynwyd
01/07/26	S Reast – Postio dogfennau i Awdit Cymru	£5.95	Cytynwyd
01/07/26	PHS - Costau gwasanaethau am y flwyddyn	£1099.90	Wedi talu
01/07/26	PHS – ‘Temporary Fuel Surcharge’	£20.17	Cytynwyd
01/07/26	Border Janitorial	£138.89	Cytynwyd
01/07/26	Hafren Dyfrdwy (6ed Medi 2024 i 31ain Mawrth 2026)	£1129.77	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

- Diolch i E Davies a F Cauley am helpu clirio mieri yn Bont tu ôl yr hysbysfwrdd a'r bainc
- Cais am arwyddion i'r siop yn y maes parcio – cytynwyd na fydd hyn yn cael ei chaniatau

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- D Jones – Cynnal pwyllgorau yn mis Awst
- E Davies – Problemau gyda'r gwasanaeth ambiwlans
- G Davies – Chwyn ar ochr y ffyrdd yn y pentref
- B Jones – Gwelededd ar y ffordd A470 wrth dod allan o'r ffordd fach o'r Hen Gapel
- B Jones – Budreddu yn cil fan Dolfach
- G Mitchell – Iard y Cyngor yn Llanbrynmair

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar nos Fercher, 2ail mis Medi 2026

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair